# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 13eg Tachwedd 2023
## Canolfan Llangwnnadl

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Sian Parri, Deio Williams, Alan Hughes, Sioned Pearson, Gareth Jones, Chris Brady, Catrin Williams, Henry Hughes

Ymddiheuriadau: John Davies

1. Cadeiriwyd gan Henry Hughes ac estynnodd groeso I

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Cafwyd pris gan Chris Brady o £500 + TAW i greu hysbysfwrdd metal i'w osod ar wal y post, bydd y Clerc yn cysylltu a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i holi os oes grant ar gael i helpu hefo'r gost. Bydd y Clerc hefyd yn gofyn am hysbysfwrdd newydd i bentref Garnfadryn.
   b. **Tir Garnfadryn-** Dim datblygiad
   c. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Derbynniodd y Clerc ymateb gan gwmni e-geo Solutions Ltd, yn ein gwybyddu fod dwy ran i'r broses dadansoddi tir. Byddai cost y cam cyntaf yn £1105 + TAW, yn ddibynnol ar ganlyniadau'r cam cyntaf byddai cost yr ail gam rhwng £3000 a £12000. Bydd yn rhaid cael yr adroddiadau uchod cyn symud ymlaen hefo hawl cynllunio – penderfnwyd felly ofyn i'r cwmni fynd ymlaen a dechrau'r gwaith dadansoddi Cam 1 mor fuan a phosibl. Os bydd y cwmni am ymweld a'r safle yna bydd Chris Brady, Terry Hughes a Dafydd Williams yn fodlon bod yno hefo'r swyddog.

Ch.**Llainfatw –** Cafwyd ymateb gan y Parch Kevin Ellis yn dweud bod yr elusen yn parhau i fodoli a bod arian gwerthu'r eiddo wedi ei roi yn yr elusen. Cafwyd cadarnhad ganddo na roddwyd unrhyw arian i'r Eglwys yng Nghymru neu Plwyf Bro Madryn ac y bydd yr arian yn cael ei wario ar y dibenion a fwriadwyd gan y rhai a'r sefydlodd.

Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a'r twrna Michael Strain i ofyn am arweniad a'r sut fyddai orau i weithredu a'r hyn – gan efallai uno dwy elusen sef John Edwards a Llainfatw.

d. **Ethol aelod o'r Cyngor Cymuned i fod ar bwyllgor Llywodraethol Ysgol Tudweiliog** - Derbynniodd y Clerc ebost gan y Pennaeth Einir Davies yn datgan nad oedd sedd wag ar y Llywodraethwyr. Bydd y Clerc yn ymateb yn ol gan ddagan os y bydd sedd wag yn bodoli yn y dyfodol iddi gysylltu a'r Cyngor Cymuned.

dd. **Coed ger Plas Llangwnnadl**- Cafwyd ymateb o'r Cyngor Sir yn gwybyddu y bydd arbenigwr coed yn ymweld ar safle a chaiff unrhyw ddiffyg sydd yn deillio o'r archwyliad sylw perthnasol.

e. **Drws yr Odyn Galch-** Cafwyd ymateb gan Hugh O'Donnell o Carter Jonas yn dweud y bydd yn ymweld a'r safle gyda adeiladwr yr Wythnos ddilynol.

f. **Goryrry lon yr Ysgol –** Cafwyd ymateb gan swyddog traffic y Cyngor Sir yn cadarnhau eu bod wedi ymweld a'r safle ac o ganlyniad I'r ymweliad bydd mesurydd traffig yn cael ei osod I hel tystiolaeth cyn bwrw ymlaen gyda unrhyw welliannau.

ff. **Llwybyr yr arfordir** – Bydd y Clerc yn cysylltu eto a'r Cyngor Sir gan nodi mae'r darn dan sylw ydi rhwng Porthysgaden a Porthychain.

g. **Clawdd Wenallt**- Cafwyd cadarnhad for llythyr rhybudd gordyfiant wedi ei yrru allan I'r perchennog tir.

Ng. **Archwyliad Allanol** – Dywedodd y Clerc fod ganddi gyfarfod zoom hefo'r archwylydd yn fuan.

4. Gohebiaeth:

   a. **Unedau Iaith y Sir –** Derbynwyd ebost gan Gareth Williams yn datgan pryder fod diriwiad yng ngallu siarad Cymraeg dysgwyr ysgolion cynradd y dalgylch a hynny yn ol y dybiaeth am fod yr Uned Iaith ond ar agor 4 diwrnod yn hytrach na 5 yr wythnos, ac felly fod plant sydd ynddo ddim yn cael eu trochi yn y Gymraeg am gyfnod ddigon hir ac yn mynd nol i'w hysgolion un diwrnod yr wythnos cyn llwyr feistroli'r iaith. Y duedd wedyn ydi fod y plant

Cymraeg yn troi I'r Saesneg i gyfarthrebu a'r dysgwyr. Penderfynnwyd i'r Clerc gysylltu a pennaeth Ysgol Tudweiliog i gael ei barn hi ar hyn.

b. **Perthyn –** Rhannodd Siarn Parri daflen wybodaeth am y prosiect newydd Perthyn, sydd wedi ei sefydlu gan Cymdeithas Pen y Graig yn dilyn derbyn nawdd fyddai'n galluogi i gydweithio hefo Cyfeillion Llyn a Chynghorau Cymuned (Botwnnog, Aberdaron a Tudweiliog) er mwyn gwarchod y Gymraeg a'i helpu i ffynnu yn Llyn. Bydd Perthyn yn cefnogi amcenion y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr. Nod Perthyn ydi darganfod ffyrdd i gynnal a chynyddu defnydd y Gymraeg yn y Cymunedau sydd gyda niferoedd uchel o ail gartrefi. Trafodwyd ffyrdd o osod tai lleol drwy roi rholaeth i'r Cynghorau Cymuned. Gofynwyd i'r Cyngor cymuned dderbyn y dystiloaleth gan Llywodraeth Cymru a'i gofnoidi fel a ganlyn:
**Ar sail tystiloaeth Llwyodraeth Cymru mae Cyngor Cymuned Tudweiliog yn dynodi ardal Cyngor Cymuned Tudweiliog yn 'ardal o arwyddocad ieithyddol (dwysedd uchel)' lle dylid blaeoriaethu 'gwarchod a chynyddu defnydd o'r Gymraed', yn unol a nod Cyngor Cymuned Tudweiliog a Llywodraeth Cymru.**

c. **Talu Cyflog y Clerc –** Cafwyd caniatad i'w dalu

d. **Gwahoddiad GwyrddNi Pen Llyn –** Derbynwyd gwahoddiad i weithdy adborth a chynllunio GwyrddNi Pen Llyn Nos Fawrth Tach 28ain am 6 o'r gloch.

e. **Cais Cynllunio C23/0812/46/LL Awelon Tudweiliog –** Cefnogi

f. **Cais Cynllunio C23/0887/46/DT Hawddamor,Llangwnnadl -** Cefnogi

5. Unrhyw Fater Arall:-

a. Derbynwyd pryder fod dwr yn croni wrth tro ger Weirglodd Tudweiliog, Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.

b. Derbynwyd pryder fod dwr yn rhedeg o'r mynydd drwy gloddiau caeaf ar ir ffordd fawr, ger Plas ymhenllech – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.

c. Derbynwyd pryder fod tyllau hegar ar lon Bryn Awel Garnfadryn, bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Rhagfyr 11ed 2023 am 7.30yh
Festri Capel Tudweiliog.